

Ar ddydd Mawrth, 21ain Hydref 2008 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch am 7.00 pm
PRESENNOL: Y Cyng. R Owen (Cadeirydd); D M Hughes; Mrs G Price; Mrs K Walker; D R Morgan; T Davies; D Sheppard; D Jones a'r cler

2501 Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** oddi wrth y Cyng. T Lewis; M Evans a Mrs E Davies. Nid oedd y Cyng. Sir D Suter yn gallu bod yn bresennol chwaith.

2502 **Materion Personol:** Dim

2503 **Datgan Diddordeb Personol:** Dim

2504 **Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNWYD eu cadarnhau fel cofnod cywir o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16eg Medi 2008. Trafodwyd y materion canlynol oedd yn codi o'r Cofnodion:

Cofnod 2477 Materion Priffyrdd: Ni dderbyniwyd ymateb hyd yn hyn gan yr Adran Briffyrdd i lythyrau dyddiedig 24ain Mehefin a 1af Medi 2008 ynghylch y goleuadau ambr diffygiol ar y ffordd i'r ochr ddwyreiniol o Ysgol Penrhyn-coch na'r digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch ar y ffordd lle mae'r Llwybr Diogel i'r Ysgol yn cwrdd â'r briffordd ger 'The Illicit Still' ym Mhenrhyn-coch. Mae dau achos pellach wedi codi'n ddiweddar o blant yn rhuthro allan i'r briffordd o flaen trafniadaeth. PENDERFYNWYD ysgrifennu ar y Cynghorydd Sir sy'n gyfrifol am faterion priffyrdd a gofyn a fyddai modd ystyried gosod bariau rhwystro igam-ogam lle mae'r llwybr cyhoeddus/llwybr diogel i'r ysgol yn cwrdd â'r briffordd.

Cofnod 2477 Newid arfaethedig i'r cyfeiriad post - Penbontrhydybeddau: O'r 30 o lythyrau canfasio a anfonwyd, cafwyd 13 o atebion, ac roedd 12 o'r rheiny o blaid y cynnig. PENDERFYNWYD cysylltu â'r Post Brenhinol a gweld a ellir newid y cyfeiriad post.

Cofnod 2477 Mynediad Cae Chwarae Penbontrhydybeddau: Parcio sy'n Achosi Rhwystr

Am 7.30 pm cyrhaeddodd PC 973 Hefin Jones yn ogystal â chydweithiwr Cymorth Cymunedol. Gohiriodd y Cadeirydd gyfarfod y Cyngor a gwahodd y Swyddogion i annerch yr Aelodau. Esboniodd PC Jones amcanion y cyfarfodydd cyhoeddus oedd yn cael eu trefnu'n lleol, gan obeithio y byddai modd cynnal un yng Nghymuned Trefeurig yn fuan. Hefyd amlinellodd y trefniadau ar gyfer plismona'r dathliadau Calan Gaeaf eleni a'r dulliau sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd i annog gyrwyr i beidio â thori'r cyfyngiadau cyflymder.

Gan droi at gŵynion ynghylch parcio sy'n achosi rhwystr, cytunodd PC Jones i fonitro'r safleoedd dan sylw a dilyn trywydd y pryderon ynghylch diogelwch ar y ffordd ger Ysgol Penrhyn-coch. Gadawodd y Swyddogion y cyfarfod am 7.50 pm ac aildechreuodd cyfarfod y Cyngor.

Cofnod 2478 Pecyn Gwybodaeth Age Concern: Mewn ymateb i gais y Cyngor am becyn gwybodaeth, hoffai Age Concern fynychu cyfarfod yn y dyfodol i esbonio'r fenter. PENDERFYNWYD gwahodd cynrychiolydd i gyfarfod mis Tachwedd.

Cofnod 2483 Addysg yng Ngheredigion: Rhoddodd y Cyng. R Owen grynoded o'r opsiynau posib ar gyfer dyfodol addysg yng Ngheredigion. Yn dilyn trafodaeth PENDERFYNWYD cefnogi'r cynigion ar gyfer ad-drefnu.

2505 **Trefniadau Gwasanaeth Sul y Cofio – 9 Tachwedd 2008**

PENDERFYNWYD cwrdd ger Cofeb Penrhyn-coch am 10.45 am. Bydd y Gwasanaeth dan ofal y Parch. J Livingstone, Penrhyn-coch, darllenir y Llith gan yr Is-gadeirydd, Y Cyng. M Evans a bydd y Cyng. R Owen yn gosod y dorch. Bydd yr Heddlu'n cynorthwyo i reoli'r traffig os bydd yna Swyddog ar gael. Bydd Mr R James yn chwarae'r biwgl. Cesglir y dorch o'r Lleng Prydeinig a'i chymryd i Wasanaeth Bendiithio yn Eglwys Sant Ioan cyn Gwasanaeth y Cofio.

2506 **Adroddiadau o Gyfarfodydd a fynychwyd gan yr Aelodau'n cynrychioli'r Cyngor Cymuned:**

CCB a Chynhadledd Un Llais Cymru – 11 Hydref 2008 – Neuadd Pontrhydfendigaid: Mynychwyd hwn gan y Cyng. R Owen a DR Morgan (methodd y Cyng. M Evans â bod yn bresennol). Adroddwyd bod y Cyfarfod yn un trefnus ac addysgiadol a bod y lleoliad yn wych. Cymeradwywyd pedwar o'r cynigion a drafodwyd, a gwrthodwyd y cynnig i gynnal y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol yng Ngogledd, De a Chanolbarth Cymru bob yn ail er mwyn cadw'r teithio i'r minimwm.

PATRASA: Adroddodd Y Cyng. Mrs G Price fod digwyddiad llwyddiannus i godi arian, sef yr Oktoberfest, wedi'i gynnal yn ddiweddar.

Ffrindiau Cartref Tregerddan: Adroddodd y Cyng. DR Morgan iddo fynychu agoriad swyddogol llwybr mynediad dan do newydd y Cartref yn ddiweddar.

Cyfarfod rhwng y Cadeirydd a'r Cyng. Daniel Jones ag etholwr lleol – 20 Hydref 2008:

Yn dilyn Cyfarfod y Cyngor ym mis Medi, hysbysodd Dr Clive King y Cyngor nad oedd yn fodlon bod y Cyfarfod Agored ym mis Mai wedi'i hysbysebu'n gyhoeddus a'i fod yn bwriadu cyflwyno cwyn o gamweinyddu gan y Cyngor i'r Ombwdsman.

Gwahoddwyd Dr King i gwrdd â'r Cynghorwyr R Owen (Cadeirydd) a Daniel Jones i drafod ei gŵyn.

Daeth y drafodaeth i ben mewn ffordd hynaws ac ysgrifennodd Dr King i ddiolch i'r Cynghorwyr am ddod i'w gyfarfod.

Cymdeithas Trefeurig a Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig: Adroddodd y Cyng. Daniel Jones fod cyfarfod wedi'i gynnal ar y cyd i drafod trefniadau ar gyfer gosod yr adeilad a gweithgareddau ayyb.

Derbyniwyd ac ystyriwyd yr ohebiaeth/dogfennau canlynol:

- 2507 Airtricity - Datblygu Fferm Wynt yn Nant y Moch:** Gwahoddiad i enwebu Cynghorydd i gynrychioli Trefeurig ar y Grŵp Cyswllt Cymunedol ymgynghorol. PENDERFYNWYD enwebu'r Cyng. K Walker i fynychu'r cyfarfod cyntaf ar ddydd Mawrth, 25ain Tachwedd yn Nhalybont ac i gadarnhau nad oes gan y Cyng. Walker unrhyw ddiddordeb personol yn y datblygiad arfaethedig.
- 2508 Defnyddio Ysgol Trefeurig fel Canolfan Gymunedol:** Hysbysiad gan Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig bod yn rhaid anfon copi o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y cyngor a ffurflen asesu risg wedi'i chwblhau gydag unrhyw geisiadau i ddefnyddio'r adeilad ar gyfer cyfarfodydd y cyngor, er mwyn cydymffurfio ag amodau eu prydles. Bydd ffi o £10 yn daladwy am bob sesiwn dwy awr. PENDERFYNWYD gofyn am fwy o wybodaeth ynghylch yr asesiad risg.
- 2509 Adolygu'r Ffiniau Cymunedol yng Ngheredigion:** Llythyr gan Ceredigion yn gofyn am farn y Cyngor ar y ffiniau cymunedol presennol a'r trefniadau etholiadol. Mae copïau o'r llythyr wedi'u harddangos ar hysbysfyrddau a PHENDERFYNWYD trafod y mater ymhellach yng nghyfarfod mis Tachwedd.
- 2510 Llais Defnyddwyr Cymru:** Hysbysiad – o'r 1af Hydref 2008 – mae Cyngor Defnyddwyr Cymru; Golwg ar Bost Cymru a Golwg ar Ynni Cymru wedi'u cyfuno i greu 'Llais Defnyddwyr Cymru' (rhan o *UK Consumer Focus*) fydd yn gyfrifol am ymchwilio, archwilio a chynghori ar faterion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr. PENDERFYNWYD nodi hynny.
- 2511 Dogfen ymgynghorol ar Drwyddedu ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth yng Ngheredigion:** PENDERFYNWYD ei nodi.
- Ymddiheurodd y Cyng. Daniel Jones a gadael y Cyfarfod am 8.50 pm.**
- 2512 Dogfen ymgynghorol ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Drafft** a hysbysiad ynghylch Cyfarfod Agored yn Aberaeron ar 15fed Hydref. PENDERFYNWYD nodi hynny. Adroddodd y Cadeirydd fod y gwahoddiad wedi cyrraedd yn rhy hwyr i wneud trefniadau i fynychu'r cyfarfod.
- 2513 Dogfen ymgynghorol ar gyfer Cynghorau ar Gymdogaethau ac Amgylchedd Glân:** PENDERFYNWYD ei phasio i'r Cyng. DM Hughes ei darllen.
- 2514 Gwahoddiad i lansiad Apêl Nyrsys Calon Ceredigion ar 31.10.08:** PENDERFYNWYD ei nodi.
- 2515 Heddlu Dyfed-Powys -** Gwahoddiad i nodi dau faes blaenoriaeth ar gyfer plismona'r gymdogaeth: PENDERFYNWYD nodi 1) Hygyrchedd yr Heddlu a 2) Ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- 2516 Cyngor gan Swyddog Monitro Ceredigion ar wneud cais am oddefeb i siarad a/neu bleidleisio mewn cyfarfod ar fater y mae gan gynghorwr ddiddordeb personol ynddo.** PENDERFYNWYD gwneud copïau o'r wybodaeth ar gyfer aelodau.

MATERION ARIANNOL

2517 HSBC: Balans Cyfrif M/M 30.09.08 (taflen 105) - £8,907.20

HSBC: Balans Cyfrif Cymunedol 30.09.08 (taflen 289) - £1,000.77

- 2518 Cyfrifon y Cyngor - hyd 30ain Medi 2008:** Cafodd bob aelod grynodedb o dderbynebau a thaliadau'r cyngor, ynghyd â chyfriflen gysoni'r banc am yr hanner blwyddyn yn diwedd 30ain Medi. Mae'r rhain yn dangos balans net o £9,808 ac mae'r gwariant hyd yn hyn yn unol â'r amcangyfrifon a gytunwyd pan osodwyd Archebiant 2008/09. Gwiriwyd y ffigyrau yn erbyn y Llyfr Cyfrifon, y datganiadau banc, yr anfonebau a'r llyfr arian mân. PENDERFYNWYD eu derbyn.
- 2519 Scottish Power:** Taliad fforddfraint 2008/09 - £8.90 wedi'i dalu mewn i'r Cyfrif Cymunedol.
- 2520 Map o'r Ardal - Cymuned Trefeurig:** Mae'r map sydd i'w weld ar y plinth carreg ym Mhenrhyn-coch wedi pylu a cholli ei liw. PENDERFYNWYD gofyn am ddyfynbrisiau ar gyfer gosod map digidol yn ei le, yn debyg i'r byrddau dehongli sydd i'w gweld yng Nghwmsymlog.
- 2521 Gwasanaeth Sul y Cofio 2008:** PENDERFYNWYD awdurdodi taliad o £20 i'r biwglwr o'r arian mân.
- Cytunwyd i dalu'r anfonebau canlynol:**
- 2522 L Griffiths** – Awst/Medi 08 - cyfieithu: £68.62 siec 876
- 2523 A Hughes** – Gosod pedair mainc mewn lleoliadau gwahanol: £195 siec 877
- 2524 P A Walker** – Teithio, postio ac arian mân a hawlr 1 Ebrill hyd 30ain Medi 08: £142.02 +TAW £2.84 Cyfanswm £144.86 Siec 878
- 2525 Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) Llawlyfr Clercod – Diweddariad:** £19 siec 879
- Nodwyd y penderfyniadau cynllunio canlynol:**
- 2526 A061298** Ger y Nant Penrhyncoch – codi annedd: caniatawyd
- 2527 A080277** Banc Llety Spence, Cwmerfyn – Sied offer amaethyddol: caniatawyd
- 2528 A080621** Llain ger Gelli Cottage, Cefnllwyd – codi annedd: Gwrthodwyd
- Ystyriwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:**
- 2529 A080906AV** Garej Tŷ Mawr, Penrhyncoch - arwyddion: Dim sylwadau
- 2530 A080969** 3 Nantseilo, Penrhyncoch – estyniad: Dim gwrthwynebiad.
- 2531 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Mawrth, 25ain Tachwedd, 7.00 pm yn Hen Ysgol Trefeurig (yn amodol ar drefnu asesiad risg)**
- 2532 Cytunwyd i gynnwys y canlynol ar yr agenda nesaf:** Cais am arwydd arhosfan bysiau ger ystâd Glanffrwd, Penrhyncoch
Dŵr glaw ar wyneb y ffordd ym Mrogynin a Phenrhyn-coch;
Y ffordd yn suddo a thyllau mawr yn y ffordd ger croesffordd Iger.

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.45 pm.